DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Clinig Orthodontig Elmhurst

6 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-6431-5
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5
   - Ansawdd Profiad y Claf .......... 5
   - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12
5. Y Camau Nesaf .......... 14
6. Methodoleg .......... 15
   - Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad yng Nghlinig Orthodontig Elmhurst yn Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT ar 6 Ionawr 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Clinig Orthodontig Elmhurst yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a chanllawiau.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Clinig Orthodontig Elmhurst yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Gwynedd a Sir Fôn yn bennaf, ond hefyd llawer ymhellach. Mae'r clinig yn cael ei redeg gan Tameside Orthodontics Ltd ac mae'n ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r clinig yn darparu gwasanaethau orthodontig preifat i oedolion a phlant. Darperir triniaeth y GIG i blant (sy'n gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn) hyd at 18 mlwydd oed.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, rheolwr y practis, pedair nyrs ddeintyddol a dau dderbynnydd.

## 3. Crynodeb

Dywedodd staff wrthym eu bod yn derbyn gwasanaeth da iawn yng Nghlinig Orthodontig Elmhurst. Roedd cleifion yn cael eu gweld mewn da bryd ar gyfer eu hapwyntiad, a gwnaethon nhw gadarnhau eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol ynghylch eu triniaeth. Serch hynny, gwnaethom gynghori'r clinig i ddiweddaru taflen y practis fel mater o frys.

Yn gyffredinol, gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Roedd systemau cadarn ar waith i warchod cleifion rhag niwed.

Roedd staff yn cael eu darparu â hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflenwi gofal a thriniaeth orthodontig. Serch hynny, roedd angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod gwiriadau cyflogaeth wedi cael eu cynnal ar gyfer staff a bod gofynion hyfforddiant aelodau staff yn cael eu bodloni'n gyson.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael. Gwnaethom gynghori ar sut gellir gwella'r polisïau diogelu a'r systemau archwilio ymhellach.

Daeth Clinig Orthodontig Elmhurst i feddiant Tameside Orthodontics Ltd ym mis Mawrth 2012, gyda'r cyfarwyddwr yn gweithio fel orthodontydd rhan amser yno. Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y clinig yn cael ei redeg a'i reoli'n dda. Roedd llinellau atebolrwydd clir rhwng yr orthodontyddion, nyrsys, derbynyddion a rheolwr y practis. Serch hynny, roedd hefyd arwyddion bod y safonau uchel wedi dechrau llithro. Roedd hyn oherwydd nad oedd rheolwr y practis wedi cael digon o amser i ddod yn gyfarwydd â'i rôl newydd ac i gynnal yr ystod lawn o gyfrifoldebau rheoli a oedd eu hangen ar glinig cofrestredig. Felly, rydym wedi cynnwys bod angen gwelliant er mwyn cynnal y safonau hyn.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn derbyn gwasanaeth da iawn yn y clinig hwn. Roedd cleifion yn cael eu gweld mewn da bryd ar gyfer eu hapwyntiad, a gwnaethon nhw gadarnhau eu bod yn derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth.Serch hynny, gwnaethom argymell bod y clinig yn diweddaru taflen y practis fel mater o frys.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Derbyniom gyfanswm o 22 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Rydw i bob tro wedi cael profiad pleserus ym mhractis yr orthodontydd hwn. Mae’r staff wastad wedi esbonio popeth i mi … deintydd neis iawn."*

*“Rydw i bob tro wedi cael fy nghroesawu â gwên.Mae pawb yn hyfryd."*

*“Ardderchog. Does dim byd drwg i ddweud amdano – orthodontydd gwych."*

*“Croesawgar ac yn rhoi digonedd o wybodaeth ynghylch yr apwyntiad bob tro."*

Gofal gydag urddas

Dywedodd pob un o’r 22 claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod tîm y practis fel arfer yn gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt. Fel y gellir deall o'r enghreifftiau uchod, dangosodd sylwadau cleifion fod staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas.

Gofal amserol

Siaradom â dau glaf yn ystod yr arolygiad. Gwnaethon nhw esbonio eu bod wedi derbyn llythyr gan y clinig yn gofyn iddynt ffonio am apwyntiad. Gwnaethon nhw ganfod bod y system apwyntiadau yn gyflym ac yn hawdd.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon pan oeddent yn cyrraedd erbyn amser eu hapwyntiad. Dywedodd 18 claf a gwblhaodd yr holiaduron nad oeddent wedi profi oedi cyn cael eu gweld. Dywedodd un claf ei fod weithiau wedi profi oedi, ac roedd claf arall wedi profi oedi am oddeutu hanner awr. Serch hynny, dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ynglŷn â'r gwasanaeth.

Cadw’n iach

Dywedodd 21 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron y rhoddwyd digon o wybodaeth iddynt ynghylch eu triniaeth. Dywedodd un claf nad oedd yn derbyn digon o wybodaeth oni bai ei fod yn gofyn amdani.

Gwelsom nad oedd y daflen i gleifion wedi'i diweddaru ers i'r clinig ddod i feddiant y perchnogion newydd ym mis Mawrth 2012, ac felly nid oedd yn cael ei dosbarthu i gleifion ar hyn o bryd. Er bod y wybodaeth ar wefan y clinig yn dda, nid oedd yn crybwyll cyfeiriadau'r GIG a’r gwasanaeth i blant.

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i oriau agor y clinig ar y wefan nac yn y clinig. Dywedodd 11 claf nad oeddent yn gwybod rhif ffôn tu allan i oriau ac argyfwng. Felly dylai'r wybodaeth yma gael ei chynnwys yng ngwybodaeth y practis a'i harddangos yn glir yn adeilad y clinig.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid arddangos oriau agor y clinig a'r rhif(au) i gleifion ffonio yn ystod oriau cau ac mewn argyfwng yn amlwg.***

Roedd y wybodaeth ar yr hysbysfwrdd yn yr ardal aros mewn ffont mawr ac yn hawdd ei dilyn, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn Saesneg yn unig. Gwelsom fod nifer o gleifion a fynychodd y clinig yn ystod yr arolygiad yn siarad Cymraeg, ac o ystyried y gyfran uchel o bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal, dylid gwneud y wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid diweddaru taflen y practis fel mater o frys.Dylid gwneud fersiwn Cymraeg a Saesneg yn hygyrch i gleifion.Dylid anfon copi i AGIC fel tystiolaeth.***

***Dylai gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys y wefan a thaflen y practis, fod yn glir ynghylch yr ystod o wasanaethau'r GIG a phreifat a ddarperir.O ran y wefan, cynghorir y practis i ystyried egwyddorion hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Gofal unigol

Roedd tystiolaeth bod triniaeth orthodontig yn cael ei theilwra o amgylch anghenion a dewisiadau pob claf. Gwelsom y rhoddir ffeil i gleifion newydd edrych drwyddi cyn eu hapwyntiad. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth a darluniau eglurhaol o'r triniaethau orthodontig sydd ar gael ac a allai gael eu

hystyried. Siaradom â dau o blant, a oedd yng nghwmni eu rhieni, a gwnaethon nhw gadarnhau bod gweld lluniau o'r mathau gwahanol o driniaethau a fframiau dannedd wedi bod yn ddefnyddiol.

Rhoddwyd y cyfle i gleifion roi adborth o'u safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth ac i fynegi unrhyw awgrymiadau, sylwadau neu bryderon drwy'r dderbynfa neu reolwr y practis yn y lle cyntaf. Gwelsom hefyd fod fersiynau gwahanol o ddiogelwch cleifion ar gyfer cleifion newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Serch hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o arolwg cleifion na chynllun gweithredu a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Felly dylai'r practis ystyried cynnal arolwg cleifion ar y cyfle cyntaf posib. Lle bo'n ymarferol, dylid gweithredu ar adborth mewn modd sy'n dangos dysgu a gwella.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid defnyddio'r prosesau sydd eisoes ar waith yn y clinig i werthuso profiad y claf yn rheolaidd.Dylai'r clinig allu arddangos sut mae adborth wedi'i ddefnyddio i ddysgu ohono ac i ddylanwadu ar a gwella gwasanaethau.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Yn gyffredinol, gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Roedd systemau cadarn ar waith i warchod cleifion rhag niwed.**

**Darperir staff â hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflenwi gofal a thriniaeth orthodontig. Serch hynny, roedd angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod gwiriadau cyflogaeth wedi cael eu cynnal ar gyfer staff a bod gofynion hyfforddi aelodau staff yn cael eu bodloni'n gyson.**

**Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael. Gwnaethom gynghori ar sut gellir gwella'r polisïau diogelu a'r systemau archwilio ymhellach.**

Gofal diogel

Gwelsom fod y clinig, a oedd wedi elwa ar raglen helaeth o adnewyddu dros y 12-18 mis diwethaf, wedi'i gadw'n dda. Roedd un o'r toiledau, mewn adeilad ar wahân yng nghefn yr adeilad, wedi'i addasu i alluogi mynediad i gadeiriau olwyn. Rhagwelwyd y bydd y gwaith hwn yn dod i ben erbyn diwedd mis Ionawr 2016.

Roedd 11 gris i gael mynediad i'r clinig. Roedd lifft grisiau allanol mewn lle ac yna roedd mynediad i'r brif fynedfa ar hyd ardal decin, gyda gafaelion wedi'u gosod er mwyn atal y risg o lithriadau neu gwympiadau. Gwelsom fod asesiad risg wedi'i gwblhau ac roedd rhaglen gynnal a chadw reolaidd ar waith, er mwyn atal y decin rhag mynd yn llithrig pan mae'n wlyb neu oherwydd traul.

Derbyniodd yr holl aelodau staff hyfforddiant mewn diogelu plant ac oedolion ym mis Hydref 2015. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i ychwanegu manylion cyswllt yr awdurdod lleol i bolisïau amddiffyn plant ac oedolion y practis, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau i'r staff eu dilyn hefyd wedi'u cynnwys yn y polisïau hyn.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid ychwanegu'r weithdrefn i'r staff ei dilyn a manylion yr awdurdod lleol i'r polisïau diogelu oedolion a phlant.***

Edrychom ar ystod o gofnodion cynnal a chadw, a gwelsom fod offer trydanol, nwy, tân, dyfeisiadau deintyddol ac offer pelydr-X yn cael eu profi ac yn derbyn gwaith cynnal a chadw'n rheolaidd. Roedd contractau ar waith ar gyfer

gwastraff cyffredinol a pheryglus. Rhoddwyd gwybod i ni fod trefniadau wedi'u gwneud i wella'r diogelwch yn yr ardal lle'r oedd gwastraff yn cael ei gadw'n allanol. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i gadw tystiolaeth ddogfennol o'r gwiriadau dyddiol a oedd yn cael eu cyflawni ar y cywasgydd.[1]

Roedd yr holl ardaloedd y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn lân ac yn daclus. Roedd system glir ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd ardal ddadheintio newydd wedi'i chreu a oedd yn gyson â chanllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (2014) ar gyfer practisau deintyddol. Derbyniodd y staff hyfforddiant rheoli heintiau yn ystod mis Tachwedd 2015. Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi'i gyflawni yn 2013, ac roedd angen ei adolygu yn ystod 2016. Serch hynny, nid oedd y dull archwilio a ddefnyddiwyd wedi'i ddylunio'n wreiddiol ar gyfer practisau deintyddol. Nid oedd unrhyw gynllun gweithredu clir yn amlwg o'r archwiliad hwn.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid sefydlu archwiliad rheoli ac atal heintiau a dadheintio mwy addas.Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried y dulliau archwilio a ddatblygwyd ac sydd ar gael drwy Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion Prifysgol Caerdydd (fel y cyfeiriwyd atynt ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05) at y pwrpas hwn.***

Edrychom ar sampl o ffeiliau staff i wirio'r gwiriadau recriwtio a chyflogi staff. Gwelsom mai dim ond un i'r deintyddion oedd wedi cofrestru gydag AGIC. Gwnaethom atgoffa'r practis ei fod yn ofyniad rheoleiddiol bod deintyddion sy'n darparu triniaethau deintyddol ac orthodontig preifat wedi'u cofrestru gydag AGIC. Serch hynny, gwnaeth y deintydd y gwnaethom siarad ag ef ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC ein sicrhau mai dim ond ef sy'n darparu triniaethau orthodontig preifat a bod yr orthodontydd arall yn trin cleifion y GIG yn unig.

Roedd y deintydd sydd wedi'i gofrestru ag AGIC wedi derbyn tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn 2011. Serch hynny, mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn gofyn bod tystysgrif cofnod troseddol fanwl ar gael i unigolion cofrestredig, a bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers iddi gael ei chyhoeddi. Felly, gwnaethom gais bod gwiriad

[1]Dyfais fecanyddol yw cywasgydd sy'n cywasgu'r aer ar gyfer storio, a chaiff ei defnyddio mewn offer ac offer llaw deintyddol.

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd yn cael ei sicrhau ar gyfer y deintydd hwn ar frys.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid bod tystysgrif cofnod troseddol fanwl ar gael ar gyfer unigolion cofrestredig, a bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers iddi gael ei chyhoeddi.***

Darparwyd ni â thystiolaeth bod hyfforddiant, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, wedi'i gwblhau gan y deintyddion yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Gwnaethom atgoffa rheolwr y practis i gadw copi o hyn at ddibenion arolygu, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod geirdaon ysgrifenedig wedi'u casglu ar gyfer un o'r aelodau mwyaf newydd a benodwyd. Roedd rheolwr y practis yn credu bod y geirdaon llafar wedi'u casglu gan berchennog y practis. Serch hynny, nid oedd unrhyw ddogfennau ynglŷn â'r trafodaethau llafar hyn ar ffeil yr aelod o staff. Gwelsom fod gwiriad diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer y cyflogai hwn. Serch hynny, roedd hwn wedi'i gasglu yn ystod cyflogaeth flaenorol yr aelod o staff mewn gwasanaethau oedolion, ac felly nid oedd gwiriad dan y rhestr gwahardd plant wedi'i geisio. Cytunodd rheolwr y practis i ddilyn hyn ar frys ar ran y cyflogwr.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid casglu a dogfennu gwiriadau recriwtio priodol mewn ffeiliau unigol aelodau staff.***

***Am fod y clinig yn darparu gwasanaethau i blant, dylai gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff clinigol gynnwys gwiriad manylach ar gyfer rhestrau gwahardd oedolion a phlant.***

Roedd gan y clinig y feddyginiaeth a chyfarpar dadebru angenrheidiol pe byddai eu hangen mewn argyfwng. Roedd yr holl feddyginiaeth a'r offer y gwelsom o fewn eu dyddiad. Gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd rheolaidd. Serch hynny, roedd yr hyfforddiant blynyddol hwn i fod wedi'i gynnal ym mis Hydref 2015 yn ddiwethaf, ond nid oedd wedi'i wneud eto. Ar ein cais, trefnodd rheolwr y practis i'r hyfforddiant nesaf gael ei gyflawni'r cyfle nesaf posib, sef 29 Chwefror 2016.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid cynnal hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd o leiaf bob blwyddyn, yn unol â Safonau'r Cyngor Dadebru (DU).***

Gofal effeithiol

Roedd system strwythuredig a oedd wedi'i threfnu'n dda rhwng yr orthodontyddion a'r nyrsys deintyddol. Gwelsom fod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod cyfranogiad y cleifion yn ganolog i'r gwasanaeth. Roedd cleifion yn cael eu darparu â chopïau o'u cynllun triniaeth ac roedd y system gyfrifiadurol yn galluogi deintyddion i gynhyrchu gwybodaeth a llythyrau'n syth, fel y dangoswyd i ni.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri chlaf ar gyfer pob orthodontydd. Roedd yr ansawdd yn dda iawn am eu bod yn darparu digon o wybodaeth o ran apwyntiadau a thriniaethau'r cleifion, a'r trafodaethau â nhw.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Daeth Clinig Orthodontig Elmhurst dan feddiant Tameside Orthodontics Ltd ym mis Mawrth 2012, gyda'r cyfarwyddwr yn gweithio fel orthodontydd rhan amser yno.Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y clinig wedi'i redeg a'i reoli'n dda. Roedd llinellau atebolrwydd clir rhwng yr orthodontyddion, nyrsys, derbynyddion a rheolwr y practis.Serch hynny, roedd hefyd arwyddion bod y safonau uchel wedi dechrau llithro.Roedd hyn oherwydd nad oedd gan reolwr y practis ddigon o amser i ddod yn gyfarwydd â'i rôl newydd, ac i gynnal yr ystod lawn o gyfrifoldebau rheoli sy'n ofynnol i glinig cofrestredig. Felly, rydym wedi cynnwys bod angen gwelliant er mwyn cynnal y safonau hyn.**

Gwelsom fod systemau rheoli cadarn ar waith, a oedd yn cynnwys system gyfrifiadurol at y pwrpas a pholisïau/gweithdrefnau cynhwysfawr sy’n berthnasol i holl agweddau ar glinig orthodontig. Roedd aelodau staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol ac arbenigol yn rheolaidd.

Roedd rheolwr y practis wedi gweithio yn y clinig ers dros 30 mlynedd, ond roedd hi newydd ddechrau yn ei rôl gyfredol yn dilyn ymadawiad rheolwr blaenorol y practis rai misoedd yn ôl. Roedd hi a'r deintydd y siaradom ag ef yn broffesiynol, yn hawdd mynd atynt, ac yn awyddus i gadw safon uchel o wasanaeth. Serch hynny, roedd rheolwr y practis yn dal i ddysgu am y rôl ac, am fod yr orthodontyddion hefyd yn gweithio yn Lloegr, nid oedd yn hollol gyfarwydd â'r gwahaniaethau rhwng rheoliadau a safonau Lloegr a Chymru.

Roedd arwyddion bod rhai o'r tasgau rheoli wedi dechrau mynd yn hwyr yn ystod y 12 mis diwethaf. Er enghraifft, roedd yr arfarniadau staff a chyfarfodydd tîm mwyaf diweddar wedi'u cynnal yn ystod 2014. Gwelsom fod rheolwr y practis yn dal yn ymwneud â rhai o’r gwaith gweithredol. Er enghraifft, roedd hi'n tynnu ac yn gwerthuso'r holl belydrau-X. Serch hynny, roedd dwy o'r nyrsys deintyddol yn derbyn hyfforddiant radiograffeg ar hyn o bryd, ac felly caiff ei ragweld y bydd y dasg hon yn cael ei rhannu â nhw o fis Mawrth 2016. Gwnaethom awgrymu y gallai eu rôl nhw hefyd gynnwys archwiliadau cyfnodol o'r pelydrau-X. Fe’n hysbyswyd gan reolwr y practis ei bod ar fin dechrau cwrs cydlynu triniaeth, am y bydd hi'n goruchwylio'r maes hwn.

Gwnaethom fynegi ein pryder bod rheolwr y practis ar hyn o bryd mewn rôl ddeuol oedd yn cynnwys gwaith gweithredu a gwaith rheoli. Gallai hyn achosi risg y byddai’r safonau'n gostwng pe byddai hyn yn parhau dros gyfnod hir.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid cymryd camau brys er mwyn sicrhau bod rôl rheolwr y practis yn cael ei hadolygu ac, os oes angen, ei dirprwyo'n briodol ymhlith y staff eraill.***

***Mae'n rhaid ystyried amser i reolwr y practis ddod yn gyfarwydd â'i swyddogaethau a'i chyfrifoldebau (er enghraifft recriwtio staff, arfarniadau, dysgu a datblygu tîm, cyfarfodydd, sicrwydd ansawdd ac archwiliadau) ac i sicrhau bod tasgau rheoli yn cael eu cynnal yn gyson. Fel arall, mae risg y bydd safonau'n gostwng ymhellach.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghlinig Orthodontig Elmhurst yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau rydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Clinig Orthodontig Elmhurst, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

## Dyddiad yr arolygiad: 6 Ionawr 2016

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | ***Dylid arddangos oriau agor y clinig a'r rhif(au) i gleifion ei/eu ffonio yn ystod oriau cau ac mewn argyfwng yn amlwg.*** | Safon 3.2 a 4.2 | **Wedi'i ddiweddaru'n ddwyieithog eisoes** | **AE** | |
| 6 | ***Dylid diweddaru taflen y practis fel mater o frys.Dylid gwneud fersiwn Cymraeg a Saesneg yn hygyrch i gleifion.Dylid anfon copi i AGIC fel tystiolaeth.***<br><br>***Dylai gwybodaeth i gleifion, gan*** | Safon 3.2 a 4.2 | **Mae pamffled y practis yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd fersiwn Gymraeg ar gael.**<br><br>**Bydd disgrifiad llawn o driniaethau a gynigir yn y practis** | **AE** | **Tri mis** |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***gynnwys y wefan a thaflen y practis, fod yn glir ynghylch yr ystod o wasanaethau'r GIG a phreifat a ddarperir.Yn y cyswllt hwn, cynghorir y practis i ystyried egwyddorion hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.*** | | **yn cael eu cynnwys, gan gynnwys triniaethau'r GIG a phreifat.**<br>**Mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd lleol.** | | |
| 7 | ***Dylid defnyddio'r prosesau sydd eisoes ar waith yn y clinig er mwyn gwerthuso profiad y cleifion yn rheolaidd.Dylai fod y clinig yn gallu dangos sut mae wedi defnyddio adborth i ddysgu ohono ac i ddylanwadau ar a gwella gwasanaethau.*** | Safon 6.3 | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | ***Dylid ychwanegu'r weithdrefn i staff ei dilyn a manylion yr awdurdod lleol i'r polisïau diogelu oedolion a phlant.*** | Safon 2.7 a 7.1 | **Bydd siart lif yn cael ei hychwanegu.** | **AE** | **3 mis** |
| 9 | ***Dylid sefydlu archwiliad rheoli ac atal heintiau a dadheintio mwy*** | Safon 2.4 | **Bydd archwiliad wedi'i ddiweddaru yn cael ei roi ar waith** | **AE** | **4 mis** |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***addas.Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried y dulliau archwilio a ddatblygwyd ac sydd ar gael drwy Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion Prifysgol Caerdydd (fel y cyfeiriwyd atynt ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05) at y pwrpas hwn.*** | | **gan ddefnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.** | | |
| 10 | ***Mae'n rhaid bod tystysgrif cofnod troseddol fanwl ar gael ar gyfer unigolion cofrestredig, a bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers iddi gael ei chyhoeddi.*** | Safon 2.7 a 7.1 | **Rydym yn ceisio am wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unigolion cofrestredig.** | **AE** | **3 mis** |
| 10 | ***Mae'n rhaid casglu a dogfennu gwiriadau recriwtio priodol mewn ffeiliau unigol aelodau staff.***<br><br>***Am fod y clinig yn darparu gwasanaethau i blant, dylai gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff clinigol gynnwys gwiriad manylach ar gyfer rhestrau gwahardd oedolion a phlant.*** | Safon 7.1 | **Byddwn yn ceisio am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unrhyw aelodau newydd parhaol o staff.** | **AE** | |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | ***Dylid cynnal hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd o leiaf bob blwyddyn, yn unol â Safonau'r Cyngor Dadebru (DU).*** | Safon 2.1 a 7.1 | **Mae hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd cyfredol wedi'i drefnu ar gyfer 29 Chwefror 2016.** <br> **Mae hyfforddiant parhaus yn flynyddol.** | **AE** | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12–13 | ***Dylid cymryd camau brys er mwyn sicrhau bod rôl rheolwr y practis yn cael ei hadolygu ac, os oes angen, ei dirprwyo'n briodol ymhlith y staff eraill.*** <br> ***Mae'n rhaid ystyried amser i reolwr y practis ddod yn gyfarwydd â'i swyddogaethau a'i chyfrifoldebau (er enghraifft recriwtio staff, arfarniadau, dysgu a datblygu tîm, cyfarfodydd, sicrwydd ansawdd ac archwiliadau) ac i sicrhau bod tasgau rheoli yn cael eu cynnal yn gyson. Fel arall, mae risg y bydd safonau'n gostwng ymhellach.*** | Safon 7.1 | **Mae'n rhaid i staff fynychu cyrsiau strwythuredig er mwyn ennill cymwysterau i gyflawni agweddau penodol ar y dyletswyddau hyn.** <br> **Bydd Julie yn dechrau hyfforddiant radiograffig, a chydlynydd triniaeth.** <br> **Bydd gan dîm y dderbynfa setiau pen i dderbyn galwadau.** <br> **Mae swyddogaethau swyddi wedi'u manylu.** <br> **Mae holl aelodau'r tîm wedi'u hyfforddi i gyflenwi swydd Angie.** | **ZU** | **O fewn y** <br> **6-12 mis nesaf** |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Angie – Rheolwr y Practis | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): .....Zia Ud-Din / Angela Evans......................................................

**Teitl:** ......Orthodontydd Arbenigol /Rheolwr y Practis............................

**Dyddiad:** ......4/2/16..........................................................................